**PWYLLGOR Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY**

**24 Ionawr 2018**

Yn bresennol: Mrs J James, y Cynghorydd M James, Mr AE Sangster, y Cynghorydd M Williams; Ms S Green, Mr P Howe (Cyngor Sir Penfro), Ms L Livock (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro), Mr G Lloyd-Jones (Cyfoeth Naturiol Cymru) a Mrs J Mansfield.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 1.45pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd K Doolin, y Cynghorydd S Yelland a Ms K Scott (PLANED).

**2. Datgelu buddiant**

Datgelodd Mrs J Mansfield fuddiant personol yn SDF 0376 Halen Dewi, a Mr AE Sangster yn SDF 0375 Pŵer Sir Benfro, ond arhosodd y ddau yn y cyfarfod, gan chwarae rhan lawn yn y trafodaethau ar y ddau gais.

**4. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2017.

**5. Adroddiad am y Diweddaraf am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Roedd adroddiad Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn amlinellu'r pum cais a oedd gerbron y Pwyllgor i'w hystyried y diwrnod hwnnw. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr holl brosiectau cyfredol, a chynnydd y prosiectau hynny.

Yna, soniodd Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy am y sefyllfa ariannol a oedd yn dangos bod £36,762 o gyllid heb ei neilltuo ar gael ar gyfer prosiectau newydd. Roedd y ceisiadau a ddaeth i law yn gofyn am £39,791 yn 2017-18, £24,097 yn 2018-19 a £5,603 yn 2019-20. Felly, os penderfynir bod yr holl brosiectau dan ystyriaeth yn deilwng o gael cymorth, byddai ychydig yn ormod o arian wedi'i ymrwymo ar gyfer 2017-18, ond roedd y diffyg, sef £3,029, yn fach a byddai'r Awdurdod yn talu hwnnw.

O ran cynllun y Grant Bach Gwyrdd, daeth tri chais i law yn 2017-18, er mai dim ond un o'r rheini a gafodd ei gymeradwyo. Felly, roedd £3,000

yn weddill i'w ddyrannu i brosiectau'r Grant Bach Gwyrdd. Soniwyd mai Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro oedd yn gweinyddu'r cynllun hwn, a dywedodd Ms Livock fod tri chais arall wedi'u cyflwyno cyn y dyddiad cau diwethaf, a bod y rheini'n cael eu trafod ar hyn o bryd.

Aeth Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy rhagddi i esbonio y byddai'n gadael Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddiwedd mis Ionawr 2018, ac y disgwylir penderfyniad maes o law ynghylch dyfodol ei swydd. Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw brosiectau i fwrw ymlaen â hwy ac atebodd y Gweinyddwr ei bod wedi bod yn bresennol mewn ffair ariannu ym mis Tachwedd, lle cafodd wybod am naw prosiect newydd posibl.

**NODWYD.**

**6. Ceisiadau am gyllid o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Trafododd y Pwyllgor bum cais newydd am gyllid o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Ystyriwyd y ceisiadau'n fanwl ar sail y meini prawf ar gyfer asesu'r gronfa, yn dilyn cyflwyniad byr gan bob un o'r ymgeiswyr. Atgoffwyd yr Aelodau gan Weinyddwr y Gronfa fod nifer o'r ceisiadau a oedd ar yr agenda y diwrnod hwnnw yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif, ac na ddylid ei rhannu na'i dosbarthu'n ehangach.

| **Cyfeirnod** | **Enw'r Prosiect** | **Cyflwynwyd gan** | **Sefydliad** |
|---|---|---|---|
| SDF 0373 | Gwasanaethau Coetir De Sir Benfro | Murray Taylor | Gwasanaethau Coetir De Sir Benfro |
| SDF 0375 | Pŵer Sir Benfro | Barry John Marten Lewis | VC Gallery |
| SDF 0376 | Halen Dewi Cam 2 | Ben Lloyd | Halen Dewi |
| SDF 0377 | Astudiaeth o ddichonoldeb carotenidau | Alex Mühlhölzl | Mikota Ltd |
| SDF 0378 | Siop deithiol dillad syrffio iSea a chanolfan glanhau traethau | Anna Strzelecki | iSea Surfwear a Surfers Against Sewage |

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd fod cylch gorchwyl y Pwyllgor yn pennu mai Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol oedd i benderfynu, gan gymryd i ystyriaeth safbwyntiau'r Aelodau Cynghorol hynny a oedd yn bresennol.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

(a) bod y swm cyfan o gyllid y gofynnwyd amdano yn cael ei roi i'r ceisiadau a ganlyn, yn ddarostyngedig i amodau arferol y grant:

- (i) SDF 0373 - Gwasanaethau Coetir De Sir Benfro – ar yr amod bod y busnes yn llwyddo yn ei gais am Grant Cynllun Buddsoddi Busnes Pren gan WEFO
- (ii) SDF 0375 – Pŵer Sir Benfro
- (iii) SDF 0376 – Halen Dewi Cam 2
- (iv) SDF 0377 – Astudiaeth o ddichonolrwydd carotenidau

(b) bod y cais a ganlyn yn cael ei ohirio tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor:

- (i) SDF 0378 – Siop deithiol dillad syrffio iSea a chanolfan glanhau traethau – er mwyn rhoi cyfle i'r ymgeisydd ddarparu rhagor o wybodaeth am ei gynllun busnes.

.